

ColegauCymru
CollegesWales

# PONTIO I ADDYSG BELLACH A/NEU HYFFORDDIANT I DDYSGWYR SYDD AG ADY

ARFERION GORAU



# Cyflwyniad

Gall pontio o'r ysgol i'r coleg fod yn her anodd i rai dysgwyr sydd ag ADY. Gall Cydlynwyr ADY mewn ysgolion uwchradd ac arweinwyr ôl-16 mewn ysgolion arbennig wneud gwahaniaeth enfawr i brofiadau dysgwyr drwy eu cefnogi drwy'r cyfnod hwn.

Mae cydweithio yn allweddol i lwyddiant. Bydd cysylltu â Swyddog Pontio neu Dîm ADY y coleg yn helpu i sicrhau bod y cyfnod pontio yn un llyfn.

## Bydd y canllaw hwn yn darparu gwybodaeth am y canlynol:

1. **Pryd i ddechrau**
2. **Pwy i'w gynnwys**
3. **Sut i gefnogi plant, pobl ifanc a rhieni**
4. **Beth i'w gynnwys mewn adolygiad pontio**
5. **Beth os na ellir diwallu eu hanghenion ôl-16 yn lleol?**
6. **Beth i'w gofnodi ar Gynllun Datblygu Unigol**
7. **Pa weithgareddau all gefnogi cyfnod pontio llyfn**
8. **Rhannu gwybodaeth**

## 1. Pryd i ddechrau

I ddysgwyr sydd ag ADY sydd â llai o orbryder, llai o anghenion cymorth a/neu sy'n debygol o ymdopi'n dda o fewn coleg AB mawr, efallai y bydd cychwyn y broses yn ystod adolygiad blwyddyn 11 yn ddigonol i ddiwallu eu hanghenion.

I eraill sydd ag anghenion mwy cymhleth neu fwy o orbryder, bydd cynnwys rhywfaint o drafodaeth am y broses bontio o fewn adolygiad blwyddyn 10 neu hyd yn oed blwyddyn 9 yn helpu i sicrhau profiad didrafferth.



## 2. Pwy i'w gynnwys

Gall fod yn heriol cael yr holl bobl a all gefnogi proses bontio lwyddiannus i adolygiad sy'n canolbwyntio ar y person. Serch hynny, mae'n bwysig bod pob plentyn/person ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn gallu derbyn gwybodaeth sy'n berthnasol i'w cynnydd.

Yn ogystal â'r dysgwr a'i riant/gofalwr, gall hyn gynnwys:

- **Tiwtor dosbarth, gweithiwr cymorth,** gweithiwr ieuenctid a/neu gynrychiolydd yr ysgol sy'n eu hadnabod orau.
- **Cynrychiolydd chweched dosbarth** – os ydynt yn ystyried gwneud cais am gwrs yn yr ysgol.
- **Cynrychiolydd y coleg** – os ydynt yn ystyried gwneud cais am gwrs neu raglen hyfforddi yn y coleg.
- **Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol** – os oes angen mewnbwn therapi perthnasol arnynt tra byddant ar raglen ôl-16 yn y dyfodol a/neu os oes siawns y bydd angen lle arnynt mewn coleg arbenigol.
- **Gweithiwr cymdeithasol** – os yw'n debygol y byddant yn parhau i fod angen cymorth gofal cymdeithasol yn y dyfodol a/neu os oes siawns y bydd angen lle arnynt mewn coleg arbenigol.
- **Cynghorwr Gyrfa Cymru** – os bydd hyn yn helpu i gefnogi'r person ifanc gyda phenderfyniadau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud ynglŷn â dilyniant a/neu os oes siawns y bydd angen lle arnynt mewn coleg arbenigol.
- **Cynrychiolydd yr awdurdod lleol** – os oes gan y dysgwr CDU a gynhelir gan yr ALl a/neu os oes angen lle arnynt mewn coleg arbenigol.

**Os na all y rhai a wahoddwyd fynychu'n bersonol, dylid ystyried defnyddio technoleg fel Teams, Google Meet neu Zoom i ganiatáu iddynt ymuno o bell.**

# 3. Sut i gefnogi plant, pobl ifanc a rhieni

Mae'n bwysig bod gan ddysgwyr a rhieni/gofalwyr y cyfle i wneud defnydd llawn o'r adolygiad i ofyn cwestiynau ac i leisio pryderon.

Yn ddelfrydol, bydd cyfleoedd ôl-16 wedi'u trafod mewn adolygiadau blaenorol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu datblygu eu dealltwriaeth o'r goblygiadau dros amser.

Mae'n bwysig cofio:

- Rhoi digon o rybudd i ddysgwyr a'u teuluoedd fel y gallant wneud trefniadau i fynychu.
- Rhoi cyfle i'r dysgwr a'r teulu gyfrannu eu safbwyntiau a'u pryderon cyn yr adolygiad.
- Gofyn i'r dysgwr a'r teulu a ddylid gwahodd rhywun arall i'r adolygiad.



## 4. Beth i'w gynnwys mewn adolygiad pontio

Bydd Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gyfarwydd â chynnwys adolygiadau blynyddol sy'n canolbwyntio ar y person. Yn ogystal, dylech chi ystyried y canlynol:

- A yw'r dysgwr wedi penderfynu beth mae eisiau ei wneud ar ôl 16 oed?
- A oes cais wedi'i wneud?
- A oes opsiynau eraill os yw'r cais hwn yn aflwyddiannus?
- Pa wybodaeth sydd ei hangen ar y dysgwr am y cyfnod pontio a phwy all ddarparu hyn?
- Pa gymorth fydd ei angen arnynt gyda'r cyfnod pontio?
- A ydynt wedi ymweld/a oes angen ymweld ag unrhyw chweched dosbarth/colegau/darparwyr hyfforddiant?
- A yw'r dysgwr (neu riant/gofalwr y dysgwr ar gyfer y rhai cyn-16 oed) yn rhoi caniatâd i'r ysgol rannu gwybodaeth berthnasol gyda'r ysgol/coleg/darparwr hyfforddiant sy'n cael ei ystyried?
- Pa anghenion trafnidiaeth fydd ac a oes problemau posib gyda hyn?
- A fydd angen cymorth ar y dysgwr wrth weithiwr proffesiynol o'r bwrdd iechyd yn ystod y cyfnod pontio neu o fewn y lleoliad newydd?
- Sut allai angen y dysgwr am gymorth dysgu ychwanegol fod yn wahanol o fewn yr amgylchedd newydd a sut allai'r gwahaniaethau yn y ddarpariaeth 'sydd ar gael fel arfer' ac yn 'ychwanegol' effeithio ar yr anghenion a nodwyd yn y CDU?
- A allai fod angen trefniadau hygyrchedd mewn arholiadau o fewn y rhaglen newydd, ac os felly, a ellir rhannu eu Ffurflen 8?
- Sut beth yw eu hymgysylltiad presennol â darpariaeth yr ysgol a sut gallai hyn newid yn y lleoliad newydd?

Mae'n bwysig cofio bod yr amgylchedd, y cwricwlwm a'r cynnig o gymorth yn debygol o fod yn wahanol iawn o fewn coleg neu leoliad hyfforddi.

Mae colegau'n cynnig llawer iawn o gymorth i bob dysgwr fel mater o drefn. Gall trafod hyn yn yr adolygiad helpu i sicrhau dealltwriaeth o'r ddwy ochr o'r newidiadau i'r cymorth a allai fod eu hangen. Bydd Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol colegau hefyd yn fwy na pharod i roi manylion llawn i chi am eu darpariaeth gyffredinol, arferol a'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol.

Bydd sicrhau bod gennych rywun o leoliad arfaethedig y dysgwr yn y cyfarfod yn helpu i ateb nifer o'r cwestiynau hyn. Os yw'r dysgwr yn dal yn ansicr ble maen nhw am fynd, efallai y byddai'n ddoeth gwahodd rhywun o'r coleg lleol oherwydd bydd llawer o ddysgwyr yn gwneud penderfyniadau munud olaf i gofrestru ar gwrs AB.





## 5. Beth os na ellir diwallu eu hanghenion ôl-16 yn lleol?

Mae gan rai dysgwyr anghenion mor gymhleth fel nad oes darpariaeth addysg na hyfforddiant yn lleol a all eu cefnogi i wireddu'r canlyniadau y bwriedir eu cyflawni.

Mae'n bwysig iawn bod trafodaethau pontio yn dechrau'n llawer cynharach i'r dysgwyr hyn a bydd hyn fel arfer yn golygu ym mlwyddyn 9. Er mwyn sicrhau nad oes oedi wrth gael lle wedi'i ariannu mewn coleg arbenigol, mae angen dechrau trafodaethau manwl ddwy flynedd cyn iddynt adael yr ysgol.

I ddysgwyr sy'n bwriadu gadael yn 16 oed, mae hyn yn golygu y bydd adolygiad blwyddyn 10 yn gyfle hollbwysig i archwilio'r holl opsiynau. I ddysgwyr mewn ysgolion arbennig nad ydynt o bosib yn gadael tan eu bod yn 19 oed, gall trafodaeth ddechrau yn adolygiad blwyddyn 12 neu 13.

**Mae'n hanfodol bod cynrychiolydd o awdurdod lleol y dysgwr yn bresennol yn yr adolygiad. Os yw'n briodol, efallai y bydd angen i chi hefyd wahodd eu gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.**

## 6. Beth i'w gofnodi ar y Cynllun Datblygu Unigol

Bydd angen i Adran 3c gynnwys:

- Unrhyw wybodaeth, nad yw wedi'i chynnwys mewn man arall yn y CDU, a fydd yn cefnogi profiad di-dor i'r person ifanc wrth iddo/iddi bontio i'w ysgol/coleg/darparwr hyfforddiant newydd.
- Unrhyw drefniadau sydd eu hangen i gefnogi proses bontio lwyddiannus.
- Gwybodaeth a fydd yn helpu'r ysgol/coleg newydd i ddarparu cymorth priodol (gallai hyn fod yn ganlyniadau sy'n cael eu hawgrymu a DDdA nad ydynt wedi'u cytuno'n ffurfiol eto).


## 7. Pa weithgareddau all gefnogi cyfnod pontio hawdd llyfn

Bydd lefel y cymorth sydd ei angen ar bob dysgwr i bontio'n llwyddiannus i ysgol/coleg/darparwr hyfforddiant newydd yn amrywio, yn dibynnu ar yr unigolyn.

Efallai mai ychydig iawn o gymorth fydd ei angen ar rai wrth drefnu ymweliad neu wrth fynychu sesiwn gofrestru.

Efallai y bydd angen cymorth ar eraill gyda rhai o'r canlynol neu bob un ohonynt:

- Cyfleoedd i gael mynediad at deithiau rhithwir o amgylch campws
- Ymweliadau â champws ar adegau tawel
- Mynychu digwyddiadau diwrnod agored neu ddigwyddiadau nos
- Hyfforddiant teithio
- Sesiynau blasu yn y coleg drwy 'Mewnlenwi' o fewn dosbarthiadau cyfredol neu ddigwyddiadau arbennig
- Diwrnodau profiad
- Diwrnodau cadw mewn cysylltiad
- Boreau coffi



## 8. Rhannu gwybodaeth

P'un a yw eich dysgwyr yn symud i'r chweched dosbarth, coleg newydd neu i ddarparwr hyfforddiant, gall amseriad ac ansawdd y wybodaeth rydych chi'n ei rhannu â nhw wneud gwahaniaeth mawr i gyfnod pontio llwyddiannus.

Rhai pwyntiau i'w hystyried...

- Sicrhewch ganiatâd y rhiant i rannu gwybodaeth berthnasol ar ddechrau pob blwyddyn (gwnewch yn glir mai dim ond lle bydd hyn er lles pennaf y dysgwr y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu).
- Sicrhewch ganiatâd y dysgwr i rannu gwybodaeth cyn iddynt adael yr ysgol (gallwch ofyn am eu caniatâd cyn iddynt fod yn 16 oed er mai dim ond ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed y daw i rym).
- Mae'n gwbl dderbyniol rhannu fersiwn ddrafft o'r CDU os bydd hyn yn galluogi'r ysgol/coleg i gynllunio ar gyfer y cymorth y gallai fod ei angen ar ddysgwr.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhannu fersiwn gyfredol o broffil un dudalen y dysgwr – gall hon fod y ddogfen fwyaf defnyddiol o'r cyfan.
- Os oes gan y dysgwr drefniadau hygyrchedd mewn arholiadau, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhannu Ffurflen 8 oherwydd bydd hyn yn sicrhau y gellir rhoi cymorth amserol a phriodol yn ystod asesiadau.
- Os oes adroddiadau iechyd diweddar, asesiadau risg neu ddogfennau eraill a fydd yn ddefnyddiol wrth gefnogi'r dysgwyr yn eu lleoliad nesaf, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys y rhain.
- Rhestrir yr holl ddogfennau fel atodiad yn adran 3a.

ColegauCymru
CollegesWales